CYNGOR SIR CEREDIGION – GWASANAETH YSGOLION

# AD-DREFNU YSGOLION

## ASESIADAU EFFAITH STATUDOL

## CYNNIG I
## DDIWYGIO CYFRWNG IAITH Y DYSGU SYLFAEN YN YSGOL GYNRADD GATHOLIG PADARN SANT A DERBYN DISGYBLION 3 OED YN RHAN AMSER YN YSGOL GYNRADD GATHOLIG PADARN SANT

**DYDDIAD: MEDI 2023**

# ASESIAD O’R EFFAITH GYMUNEDOL AC AR Y GYMRAEG

| **Disgrifiad cryno o bwrpas y cynnig** |
| --- |
| Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Ceir hefyd sail statudol i'r system ar gyfer cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.<br><br>Cyhoeddwyd Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 ym mis Medi 2016, a'i nod yw llywio gwelliannau i economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru er mwyn creu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egnïol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sydd wedi'i huno a'i chysylltu. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu blaenoriaethu'r Llywodraeth ar gyfer cyflawni'r gwelliannau hyn. Maent yn fesurau uchelgeisiol a fydd yn cael effaith ar bawb ar bob cam o'u bywyd.<br><br>Mae hefyd yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y bobl sy'n ei siarad, yn ogystal â'i hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i barhau i annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.<br><br>Cyhoeddwyd strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2017. Am y tro cyntaf, gosodwyd gweledigaeth ar gyfer Cymru lle mae ei hiaith yn ffynnu. Un o nodau allweddol y strategaeth yw creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr hyderus. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rhaid i ni gynyddu nifer y disgyblion ysgol sy'n cael y cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd, a hynny'n sylweddol. Dyma'r sbardun ar gyfer dymuniad Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r ffordd y caiff y Gymraeg a darpariaeth Cymraeg eu cynllunio yn ein system addysg statudol yng Nghymru.<br><br>Cymraeg 2050 yw'r prif bolisi sy'n llywio'r newidiadau i'r broses statudol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ôl strategaeth Cymraeg 2050, addysg ymdrochi cyfrwng Cymraeg yw’r prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd. Mae data ysgolion yn dweud wrthym faint o blant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, Maent yn |

ddangosydd allweddol o ran y twf sy'n ofynnol ac yn dangos pwysigrwydd sicrhau ymrwymiad y system addysg i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg. Maent hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg ymdrochi, ac fel ffordd o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd angen cynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n dysgu Cymraeg yn llwyddiannus drwy ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod statudol hyd 7 oed. Bydd y Gymraeg hefyd yn rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru sydd yn cynnwys un continwwm ar gyfer ei dysgu. Ers cyflwyno'r cwricwlwm newydd o Fedi 2022, y nod yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n rhan o'r system addysg statudol a sicrhau bod pob dysgwr, yn y dyfodol, yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl iddo adael yr ysgol.

Bydd y cynnig yn sicrhau bod Sir Ceredigion yn gallu cyflawni ei dyletswyddau statudol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg drwy ei Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Y cynllun hwn yw'r adnodd cynllunio iaith hirdymor ar gyfer awdurdodau lleol ac mae'n pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn galluogi awdurdod lleol Ceredigion i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn ei hardaloedd mewn ffordd sy'n cyflawni nodau Cymraeg 2050.

Bydd targedau lleol mewn Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn seiliedig ar y targed hirdymor cyffredinol i sicrhau miliwn o siaradwyr. Mae Cymraeg 2050 yn amlinellu'r ymrwymiad i gynyddu cyfran y disgyblion ym mhob blwyddyn ysgol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg o 22% i 30% erbyn 2032, a bydd y cynnydd cenedlaethol hwn o 8% yn sail i dargedau pob awdurdod lleol yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Bydd y cynnig hefyd yn cyfrannu at wireddu tri nod strategol ‘Strategaeth Iaith Ceredigion’ sef:

- Cynyddu sgiliau iaith trigolion Ceredigion
- Cynyddu’r cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yng Ngheredigion
- Sicrhau amodau cymdeithasol sy’n galluogi’r Gymraeg i ffynnu bydd hefyd yn cyfrannu’n gadarnhaol iawn tuag at nodau llesiant.

| Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? |
|---|
| Bydd y cynnig yn cael effaith ar ddisgyblion o fewn oedran statudol addysg yn ysgolion Ceredigion.<br><br>Bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc yng Ngheredigion drwy gynnig dewisiadau ychwanegol o ran addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a mwy o gyfleoedd a chymorth i bawb fanteisio arni. Yn ei dro, bydd hyn yn cynnig sgiliau Cymraeg i blant a phobl ifanc y gallent eu defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd ac, yn enwedig, pan fyddant yn gadael yr ysgol ac yn dechrau gweithio. Bydd hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wella eu sgiliau Cymraeg.<br><br>Bydd y cynnig hwn hefyd yn galluogi awdurdod lleol Ceredigion i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir, a'i gwella, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ledled y sir, heb ystyried y gymdeithas y maent yn byw, eu cefndir nac iaith y teulu, gan sicrhau bod mwy a mwy o blant a phobl ifanc yn meithrin sgiliau Cymraeg y gallent eu defnyddio mewn bywyd bob dydd.<br><br>Disgwyliwn i unrhyw effeithiau fod yn rhai cadarnhaol, a hynny oherwydd y canlynol:<br><br>Bydd plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ni waeth ym mha gymuned y maent yn byw.<br><br>Bydd nodau'r cynnig hwn yn cefnogi Cyngor Sir Ceredigion i gyflawni ei ymrwymiadau o ran y Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a chymunedau sy'n siarad Cymraeg.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o athrawon a chynorthwywyr ysgolion cynradd Ceredigion yn gallu siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg. Bydd cefnogaeth lawn yn cael ei gynnig i aelodau staff ysgolion wrth weld y cynnydd yn y ddarpariaeth o safbwynt y Gymraeg. |

| Polisi Iaith Ysgolion Ceredigion |
| --- |
| Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i gefnogi gweledigaeth ac uchelgais Llywodraeth Cymru i weld miliwn o bobol sy’n gallu mwynhau siarad a defnyddio’r Gymraeg erbyn 2050, yn unol â ‘Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg’. Mae ‘Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes’ yn pwysleisio'r ffaith y bydd y Gymraeg yn parhau'n orfodol hyd at 16 oed. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y cwricwlwm hwn yn nodi'r canlynol:<br><br>“Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn cynnig ffyrdd o fanteisio ar y cysylltiadau rhwng addysgu Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern, trwy annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio eu gwybodaeth am sut mae iaith yn gweithio yn Gymraeg, er enghraifft, yn Saesneg neu ieithoedd tramor modern. Wrth wneud hynny, gallent ddeall strwythur ieithoedd. Gall hyn, ynghyd â gwerthfawrogiad o eiriau a'u tarddiad, helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu brwdfrydedd a diddordeb mewn iaith.”<br><br>Nod yr Awdurdod Lleol yw addysgu disgyblion i fod yn gwbl ddwyieithog wrth iddynt adael yr ysgol gynradd ac i ddatblygu'r gallu hwnnw yn ystod eu cyfnod uwchradd er mwyn dod yn aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Mae'r uchelgais hwn yn unol â strategaeth gorfforaethol Cyngor Ceredigion. |

| Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. |
| --- |
| Mae Cynllun Strategol Y Gymraeg Ceredigion 2022-23 yn cefnogi’n nod a’r egwyddor o ddatblygu gallu ein disgyblion i ddefnyddio Cymraeg a Saesneg yn rhugl ac yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Bydd hyn yn eu galluogi i ddod yn aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni, gan feithrin balchder yn ieithoedd, treftadaeth a diwylliant Ceredigion a Chymru.<br><br>Mae Awdurdod Addysg Ceredigion yn ceisio sicrhau pwyslais priodol ar yr iaith Gymraeg a’i diwylliant ac mae'n credu'n gryf yn y gwerth addysgol o allu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg er budd pob disgybl. Mae'r Awdurdod Addysg yn datgan ei hun yn gadarn o blaid datblygu disgyblion sy'n hyderus ddwyieithog ym mhob un o ysgolion cynradd ac uwchradd Ceredigion. |

Mae Strategaeth Iaith Ysgolion Ceredigion (2008) yn allweddol i lwyddiant y ddarpariaeth ddwyieithog ac mae Polisi Iaith Ysgolion Ceredigion yn sail gadarn a diamwys ar gyfer Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-23, a bydd darparu a gweithredu targedau ymarferol yn arwain at gynnydd mewn dwyieithrwydd ar bob lefel.

Mae Awdurdod Addysg Ceredigion yn ceisio sicrhau bod cyd-destunau cyfoethog, perthnasol a chreadigol yn cael eu cynnig i blant a phobl ifanc (gan gynnwys datblygiadau TGCh a Chymhwysedd Digidol), gan eu galluogi i ymestyn a defnyddio eu sgiliau iaith. Mae cynnig cyfleoedd i wella sgiliau llafar (yn benodol) ar bob cam o'r daith addysgol yn elfen graidd er mwyn sicrhau siaradwyr rhugl a hyderus.

Bydd yr Awdurdod hefyd yn sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, a bod ganddynt fynediad ato, wrth i'w plant a phobl ifanc ddatblygu ar hyd y llwybr/continwwm iaith. Bydd yr Awdurdod yn parhau i ganolbwyntio ar gryfhau'r Gymraeg yn ei ysgolion cynradd trwy fuddsoddiad a gwelliannau i'r ddarpariaeth, i greu sylfeini cadarn ar gyfer dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill yn yr ysgol uwchradd.

Bydd yr Awdurdod yn gweithio ar lefel ranbarthol i rannu adnoddau ac arbenigedd, ac yn annog cysylltiadau rhwng ysgolion i wella ansawdd addysgu a dysgu iaith.

Mae'r Awdurdod, trwy'r strategaeth hon, yn cyfrannu at ei ddyletswydd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg.

Mae'n cyfrannu at nod 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae'r cynllun hwn wedi'i blethu â Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae Awdurdod Addysg Ceredigion yn cytuno gyda'r farn  mai'r system addysg yw'r prif ddull o sicrhau bod plant yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, ac o greu siaradwyr Cymraeg newydd.

**Gwybodaeth perhnasol am yr ysgol**

| **Effaith ar y Gymuned** | |
|---|---|
| Cyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol | Gan nad oes dalgylch penodol i ysgolion yng Ngheredigion mae rhieni yn medru dewis ysgol i'w plant yn unol polisi derbyn yr ysgol.  Gan fod Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant yn ysgol Fydd, gall disgyblion a'r draws y sir fynychu'r ysgol ar ôl iddynt gael ei derbyn gan Bwyllgor Derbyn yr ysgol. Nid yw'r cynnig hyn yn mynd i gael effaith ar y cyfran o ddisgyblion bydd yn mynychu'r ysgol. Fodd bynnag, bydd darpariaeth Meithrin o fewn yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion 3 oed yn medru mynychu'r ysgol yn rhan amser ac yn cynyddu nifer y disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol. |
| Canran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol | Gan nad oes dalgylch penodol i ysgolion yng Ngheredigion mae rhieni yn medru dewis ysgol i'w plant yn unol a polisi derbyn yr ysgol.  Gan fod Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant yn ysgol Fydd , gall disgyblion a'r draws y sir fynychu'r ysgol ar ôl iddynt gael ei derbyn gan Bwyllgor Derbyn yr ysgol. Nid yw'r cynnig hyn yn mynd i gael effaith ar y cyfran o ddisgyblion bydd yn mynychu'r ysgol. Fodd bynnag, bydd darpariaeth Meithrin o fewn yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion 3 oed yn medru mynychu'r ysgol yn rhan amser ac yn cynyddu nifer y disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol. |
| Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau eraill a ddarperir yn yr ysgol e.e clwb ieuenctid/cylch chwarae | Mae darpariaeth Grŵp Chwarae Padarn Sant ar safle'r ysgol a ddarperir gan Blynyddoedd Cynnar Cymru. Mae pedair aelod o staff yr ysgol ar y pwyllgor rheoli. |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau neu wasanaeth eraill y mae'r ysgol y neu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol, llyfrgell gymunedol | Dim effaith - nid oes unrhyw weithgareddau i'r gymuned yn yr ysgol ar hyn o bryd. |

| **Effaith ar y Gymraeg** | |
|---|---|
| Categori Iaith yr ysgol | Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru a'r gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, o Fedi 2022 bydd Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant yn y **Categori Trosiannol 2.** |
| Gwybodaeth am safonau'r Gymraeg yn yr ysgol | Yn dilyn arolwg Estyn, Mawrth 2023, nodwyd bod 'medrau Cymraeg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda ac maent yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa yn hyderus, gydag atalnodi da. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o eiriau ac ymadroddion Cymraeg cyfarwydd, ac yn datblygu hyder wrth ddefnyddio ystod gynyddol gymhleth o eirfa. Mae llawer ohonynt yn dangos ynganiad da wrth siarad; er enghraifft, mae'r disgyblion iau yn penderfynu beth hoffent ei gael i ginio, yn nodi pa ddiwrnod yw hi a sut beth yw'r tywydd heddiw. Maent yn ymateb yn hyderus i gyfarwyddiadau a chwestiynau Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn mwynhau gemau iaith lle maent yn defnyddio amser y dyfodol i ofyn cwestiynau i'w partner. Maent yn ateb yn hyderus, gan gyfeirio at i ble y byddant yn mynd a beth fyddant yn ei wneud. Mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yn ystod yr holl weithgareddau. Mae menter 'trochi' yn llwyddiannus, ac mae disgyblion yn frwdfrydig tuag at yr iaith. O ganlyniad, mae dealltwriaeth a hyder disgyblion wrth siarad Cymraeg yn datblygu'n dda. Ymatebodd arweinwyr i ddeilliannau gweithgareddau monitro a amlygodd fod medrau llafaredd Cymraeg disgyblion yn faes i'w ddatblygu. Dechreuon nhw gynlluniau effeithiol, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion bellach yn siarad Cymraeg â hyder cynyddol. Mae staff wedi elwa ar gymryd rhan mewn gweithgareddau i |

| | |
|---|---|
| | ddatblygu eu medrau Cymraeg, gan gynnwys cynllun sabothol Cymraeg yr awdurdod lleol’. |
| Gwybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol sy’n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio’r Gymraeg yn yr ysgol e.e clybiau’r Urdd | Mae’r ysgol yn cystadlu yn rheolaidd mewn gweithgareddau a drefnwyd gan yr Urdd, gan gynnwys chwaraeon a’r Eisteddfod. Mae’r ysgol wedi profi llwyddiant cenedlaethol mewn cystadlaethau i’r dysgwyr, yn benodol drwy ennill y Parti Unsain i Ddysgwyr dros y dair blynedd ddiwethaf. Bydd y cynnig yma yn datblygu ymhellach hyder y disgyblion i ddefnyddio’r iaith tu allan i’r ysgol ac yn y gymuned lleol. Maent ar hyn o bryd gweithio tuag at derbyn Gwobr Aur Cymraeg Campus. Er nad oes yna weithgareddau ar ôl ysgol trwy gyfwng y Gymraeg ar hyn o bryd, maent yn cynnal ‘Clwb Cŵl’ amser egwyl lle ceith y disgyblion y cyfle i chwarae gemau Cymraeg. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn mynychu Canolfannau’r Urdd yng Nghaerdydd a Llangrannog am yn ail flwyddyn lle maent yn cael cyfleoedd i ddatblygu a defnyddio’i sgiliau llafar Cymraeg.<br><br>Bydd y cynnig hwn yn datblygu ymhellach hyder y disgyblion i ddefnyddio’r iaith tu allan i’r ysgol ac yn y gymuned lleol. |
| Gwybodaeth ynghylch a yw’r ysgol yn darparu cyfleusterau I aelodau’r gymuned ddysgu Cymraeg, neu gyfleusterau iddynt ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg | Mae’r ysgol yn cefnogi datblygiad ieithyddol y staff trwy sicrhau eu bod yn cael mynediad i gyrsiau sabothol a hyfforddiant priodol. Mae tri athro wedi mynychu'r cyrsiau sabothol hyn hyd yma ac mae 4 cymhorthydd wedi mynychu cwrs Blasu 10 wythnos a ddarparwyd gan yr Awdurdod. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu gallu a’u hyder i ddefnyddio’r iaith.<br><br>Fel rhan o’r cefnogaeth a ddarperir gan yr ysgol i gefnogi’r Gymraeg, maent yn cydweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth ac Adran Addysg Ceredigion ar gynllun cyffrous, arloesol sydd yn gaffaeliad i rhieni i gefnogi ei plant ar y siwrnai tuag at ddwyieithrwydd. Mae tiwtor yn ymweld ar ysgol yn wythnosol i ddarparu gwersi Cymraeg i rieni ar wahanol lefelau. Mae’r rhieni yn elwa o’r ddarpariaeth ac yn medru cefnogi ei plant efo’i gwaith ac yn magu hyder i ddysgu a defnyddio’r gwaith. Yn ystod y flwyddyn, mae nifer o rieni a llywodraethwyr wedi mynychu’r gwersi, gweler y tabl isod.  Bydd y cynnig yma yn |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>parhau yn ystod y flwyddyn nesaf a bydd yn cefnogi rhieni ar gyfer y cynnig yma i ddatblygu’r cyfrwng iaith a sicrhau mynediad i ddisgyblion i’r ysgol yn 3 oed.<br><br>
<table>
<tr><th>Ysgol Padarn Sant</th><th>Tymor yr Hydref</th><th>Tymor y Gwanwyn</th><th>Tymor yr Haf</th></tr>
<tr><td>Blasu</td><td>7</td><td>-</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Mynediad</td><td>-</td><td>7</td><td>11</td></tr>
<tr><td>Canolradd (Codi Hyder)</td><td>9</td><td>8</td><td>6</td></tr>
<tr><td>Gloywi (Codi Hyder)</td><td>3</td><td>3</td><td>3</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>19</td><td>18</td><td>21</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
<tr>
<td>Sylwadau a ddarperir gan fforwm addysg Gymraeg yr awdurdod</td>
<td>Bydd Fforwm y CSGA yn cefnogi’r deilliannau a‘r  gweithdrefnau a byddant yn cyrraedd yn rheolaidd i fonitro’r Cynllun Datblygu.</td>
</tr>
<tr>
<td>Gwybodaeth am sut mae’r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd yn y dyfodol o ganlyniad i’r newid i barhau i gydymffurfio â’r cynllun neu gyrraedd targedau’r cynllun.</td>
<td>Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 Sir Ceredigion. Mae'n nodi gweledigaeth, nod ac amcanion yr awdurdod ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg dros y deg blynedd nesaf.<br>Mae’r cynnig yn cyd-fynd yn llwyr â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod. Wrth newid cyfrwng iaith yr ysgol hyd at 7 oed a ddarparu addysg i ddisgyblion 3 oed yn yr ysgol mae’r cynlluniau sydd mewn lle i gefnogi’r cynnig yn rhoi'r cyfle i blant ddysgu a meithrin sgiliau Cymraeg o 3 oed ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg. Mae cynllun gweithredu ar waith i gefnogi’r ysgol i ddatblygu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol a gofynion y CSGA, am y 5 mlynedd cyntaf, hyd at 2026-27. Bydd hwn yn cael ei fonitro’n rheolaidd ac yn ei addasu yn unol a gofynion yr ysgol a cyrraedd targedau’r cynllun.</td>
</tr>
</table>

| Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb |
|---|
| **Deddf Cydraddoldeb 2010**<br><br>Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd ac yn disodli’r deddfau gwrth- wahaniaethu blaenorol gydag un Ddeddf. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn cael gwared ag anghysondebau ac yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddeall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.<br><br>Mae’r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd yn y sector cyhoeddus (y ‘ddyletswydd gyffredinol’) gan ddisodli'r dyletswyddau ar wahân ar gydraddoldeb hil, anabledd a rhyw. Daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011.<br><br>**Beth yw’r ddyletswydd gyffredinol?**<br><br>Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod yr awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach trwy hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan o ddylunio polisïau a darparu'r gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau i bawb.<br><br>O dan y ddeddfwriaeth, mae gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswyddau cyfreithiol i dalu ‘sylw dyledus’ i'r angen i gael gwared â gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb mewn perthynas â hil, anabledd a rhyw, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hyrwyddo cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd yn y sector cyhoeddus sy'n ymestyn y cwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae’r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i’r ddyletswydd i dalu ‘sylw dyledus’ gael ei dangos yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn bwysig nodi bod yr awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb hefyd yn debygol o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth hefyd ystyried yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau ei chael ar hawliau dynol fel rhan o'r un broses. |

**Dull Gweithredu Ceredigion o ran Effaith ar Gydraddoldeb**

Er mwyn bod y cyngor yn ystyried effaith bosibl polisïau ac arferion arfaethedig ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos ein bod wedi gwneud hynny, cefnogir y cynnig hwn gan Asesiad Effaith Integredig yr Awdurdod Lleol.

| Nodwedd Warchodedig | Effaith | | | Manylion am natur yr effaith |
|---|---|---|---|---|
| | Positif | Negyddol | Nid y naill na'r llall | |
| **Oedran** | ✓ | | | Yn sgil y cynnig, bydd yr ysgol yn derbyn disgyblion 3 oed yn rhan amser. Nododd Comisiynydd Plant Cymru fod y Gymraeg a darpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn fater o hawliau, ac yn berthnasol i nifer o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Hefyd, nododd y Comisiynydd fod cyswllt clir rhwng iaith a hunaniaeth, ac nad yw'n bosibl gwahanu unrhyw un o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn oddi wrth ystyriaethau ieithyddol.<br><br>Bydd yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol yn cael eu trin yn deg beth bynnag fo'u statws o fewn y nodwedd warchodedig hon. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Anabledd** | ✓ | | | Bydd y cynnig hwn yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a meithrin sgiliau Cymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg.<br><br>Un o'r deilliannau yn y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yw gwella'r ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, gan alluogi mwy o'r rhai hynny y mae angen y cymorth penodol hwnnw arnynt i fanteisio arno drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Ailbennu rhywedd / trawsryweddol** | | | ✓ | Bydd unrhyw ddisgyblion, rhieni/gofalwyr a staff yn cael eu trin yn deg ac yn unol â'r polisïau perthnasol. |
| **Priodas neu bartneriaeth sifil** | | | ✓ | Bydd yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol yn cael eu trin yn deg beth bynnag fo'u statws o fewn y nodwedd warchodedig hon. |
| **Beichiogrwydd neu famolaeth** | | | ✓ | Bydd yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol yn cael eu trin yn deg beth bynnag fo'u statws o fewn y nodwedd warchodedig hon. |
| **Hil** | | | ✓ | Bydd y cynnig hwn yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a meithrin sgiliau Cymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg o dair oed. Bydd cefnogaeth integreiddio yn cael ei darparu lle bo angen mewn modd addas. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Crefydd neu Gred neu ddi-gred** | | | ✓ | Mae’r ysgol yn ysgol Gatholig a bydd yn dilyn pob agwedd ar y cwricwlwm cenedlaethol fel ar hyn o bryd. |
| **Hunaniaeth rywiol/o ran rhywedd** | | | ✓ | Ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith niweidiol ar y ddarpariaeth a ddarperir.<br>Bydd pob rhanddeiliaid a gynhwysir yn y nodwedd warchodedig hon yn cael eu trin yn deg yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | | | ✓ | Bydd pob rhanddeiliaid a gynhwysir yn y nodwedd warchodedig hon yn cael eu trin yn deg yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol. |

**Asesiad o’r effaith a’r Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru 2015)**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod fframwaith cyfreithiol cyffredin sy’n seiliedig ar saith o Nodau Llesiant a phum Ffordd o Weithio. Y nod yw cynnal a darparu gwasanaethau cyhoeddus sy’n diwallu’r anghenion presennol, heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

| | | |
|---|---|---|
| Hir dymor  | Bydd CSGA 2022-32 Sir Ceredigion yn ddogfen fydd yn nodi’r camau i gyflawni’r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2032 o fewn y sir. Bydd targedau byr a hir dymor a chamau gweithredu pendant yn y byr a’r hir dymor wedi eu nodi dros y cyfnod o 10 mlynedd. | Drwy adeiladu ar CSGA 2014-17 a CSGA 2017-20 bydd y CSGA 10 mlynedd hwn yn gosod amserlen bendant fydd yn weithredol, ymarferol a chynaliadwy i gyflawni’r nod. Ni ragwelwn y bydd effeithiau negyddol i’r camau y byddwn yn eu cymryd. Bydd ymgysylltu’n gadarnhaol gyda’n holl bartneriaid a rhanddeiliaid, ar hyd y cyfnod, yn hynod bwysig wrth i ni weld y datblygiadau yn cael eu gweithredu. |

| | | |
|---|---|---|
| Atal  | Bydd y dulliau gweithredu fydd yn atal unrhyw broblemau allai godi neu waethygu drwy gyfnod y cynllun, wedi eu nodi ynddo | Nodir yr adnoddau fydd eu hangen i atal problemau rhag codi yn glir yn y gweithredoedd drwy'r cynllun. Ymatebir i unrhyw bryderon a ddaw drwy ymgysylltu'n barhaus ac yn eglur gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar hyd y cyfnod cynllunio ac ymgynghori. |
| Integreiddio  | Yn ei hanfod mae'r cynnig am gefnogi dyhead Cyngor Sir Ceredigion i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg drwy ei Strategaeth Iaith. Mae'r cynnig hefyd yn cefnogi Amcanion Strategol y Cyngor a Strategaeth Miliwn Siaradwyr 2050 Llywodraeth Cymru. | Mae'r Gymraeg yn greiddiol i weithrediad Cyngor Sir Ceredigion ac yn ei amcanion strategol. Mae integreiddio cymunedol yn ganolbwynt ar gyfer pob ysgol gan greu amgylchedd i gefnogi diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg. Ni ragwelir y bydd yna effeithiau negyddol i'r cynnig. |
| Cydweithio  | Bydd cydweithio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid yn greiddiol i'r cynllun. Y cydweithio pennaf fydd rhwng swyddogion yr awdurdod a'r ysgolion a'u cyrff llywodraethol yn ogystal â rhieni. | Dyma hanfod y cynllun - bydd yr enghreifftiau o gydweithio wedi eu nodi drwyddo er mwyn sicrhau cydweithio cadarnhaol, cyson a pharhaus drwy'r gweithredoedd a nodwyd. |
| Cynnwys  | Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. Bydd rhanddeiliaid a phartneriaid yn cael eu cynnwys ar hyd y cyfnod ymgynghori. Bydd y broses ymgynghori (Hydref 2023) ei hun yn ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 drwy'r ymgynghoriad chyhoeddus statudol. Bydd cyfle i unrhyw aelod o'r cyhoedd i fynegi barn am y cynnig bryd hynny. | Bydd amserlen y cynnig a'r angen i ymateb i'r broses ddemocrataidd ar ei hyd yn sicrhau cynnwys barn partneriaid a rhanddeiliaid. Mae'r cynnig yn destun ymgynghoriad statudol ffurfiol ac yn dilyn 'Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu gyda'r Cyhoedd yng Nghymru' |